

# CYLCHLYTHYR IECHYD CYMRU



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

**Dyddiad Cyhoeddi: 02 Medi 2019**

**STATWS: GWEITHREDU**

**CATEGORI: POLISI/ PERFFORMIAD**

**Teitl: Y Llwybrau Cenedlaethol Gorau ar gyfer Canser (2019, tranche 1)**

**Dyddiad dod i ben AMHERTHNASOL**

**I'w weithredu gan:**

Byrddau Iechyd Lleol ac Ymddiriedolaethau'r  
GIG

**Angen gweithredu erbyn:**

1 Hydref 2019

**Anfonwyd gan:** Dr Frank Atherton, Prif Swyddog Meddygol, Llywodraeth Cymru

**Cyswllt Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru**

Olivia Shorrocks, Perfformiad Cyflyrau Iechyd Difrifol, Olivia.Shorrocks@llyw.cymru

Pat Vernon, Gofal Iechyd Poblogaethau, Pat.Vernon@llyw.cymru

**Amgaeedig** Dim

## **Cyflwyniad**

Mae'r Cynllun Cyflawni Canser ar gyfer Cymru (2016-2020) yn cynnwys ymrwymiad i ddatblygu Llwybr Canser Sengl lle mae mwyafrif llethol y cleifion sydd wedi cael diagnosis o ganser yn cael triniaeth o fewn 62 o ddiwrnodau o'r adeg lle y ceir amheuaeth o ganser (y pwynt amheuaeth). Cafodd y gwaith o ddatblygu'r Llwybr Canser Sengl ei arwain gan y Grŵp Gweithredu ar Ganser yn dilyn pryderon a godwyd gan gymunedau clinigol ym maes canser o ran cyfyngiadau'r mesurau presennol ar gyfer amseroedd aros am driniaeth canser. Gwnaeth y Grŵp argymhellion i'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol yn 2018. Derbyniodd y Gweinidog yr argymhellion hyn, gan gyhoeddi hynny yn gyhoeddus ym mis Tachwedd 2018. Ar ôl hynny, cytunwyd i wneud y Llwybr Canser Sengl yn un o flaenoriaethau'r Cynllun Tymor Canolig Integredig. Dechreuwyd adrodd yn ffurfiol mewn perthynas â'r llwybr hwn ym mis Awst 2019, sef ar gyfer mis Mehefin 2019.

Mae Rhwydwaith Canser Cymru wedi bod yn helpu'r byrddau iechyd i ddatblygu a gweithredu'r Llwybr Canser Sengl fel llwybr perfformiad newydd, sy'n cyd-reddeg am y tro â'r ddau fesur sy'n ymwneud ag amseroedd aros i gael triniaeth am ganser. Y bwriad yw dangos y bydd yn bosibl gweithredu'r Llwybr Canser Sengl ar sail dechnegol, gan ddeall yr hyn y mae ei angen i wella perfformiad, ac ymhen amser, trosglwyddo i'r dull hwn yn unig ar gyfer mesur amseroedd aros i gael triniaeth canser.

Mae cyfres o Lwybrau Cenedlaethol Gorau sy'n gweithredu yn ôl safle'r canser yn ategu'r Llwybr Canser Sengl. Y Grwpiau Safle Canser cenedlaethol a ddatblygodd y Lwybrau Cenedlaethol Gorau er mwyn darparu platfform ar gyfer safoni gofal, lleihau amrywiadau, llywio capasiti lleol a chenedlaethol, modelu'r galw, a sicrhau gwelliannau o fewn pob un o'r llwybrau safle tiwmor, gyda'r nod o helpu byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd i wneud y canlynol:

- cadw o fewn terfyn amser aros y Llwybr Canser Sengl, sef 62 o ddiwrnodau;
- gwella profiad cleifion canser;
- gwella canlyniadau canser.

### **Beth yw'r Llwybrau Cenedlaethol Gorau?**

Mae'r Llwybrau Cenedlaethol Gorau yn disgrifio'r camau, y dilyniant, a'r amseroedd perthnasol gorau ar lwybr canser y claf. Mae'r gymuned o arbenigwyr clinigol wedi penderfynu bod angen defnyddio'r camau hyn er mwyn darparu llwybrau canser sy'n fwy amserol ac effeithiol.

Mae Rhwydwaith Canser Cymru, gan weithio'n bennaf drwy Grwpiau Safle Canser a hefyd gyda Thimau Amlddisgyblaethol ledled Cymru, yn sefydlu llwybrau generig a llwybrau safleoedd penodol sy'n disgrifio pob ffordd o ymuno â'r llwybr o'r pwynt amheuaeth. Yn gyffredinol, maent yn disgrifio llwybrau diagnosis a thriniaeth sy'n defnyddio'r arferion gorau (a chyfleoedd i wella), yn ogystal â disgrifio o ble y dylai cleifion allu cael gwybodaeth a chymorth cyson. Mae hynny'n cynnwys pob cam diagnostig, ymchwiliadau, a'r triniaethau diffiniol cyntaf.

Dylai'r llwybr diagnostig, gan gynnwys pennu'r cyfnod, gael ei gwblhau o fewn 28 o ddiwrnodau i'r pwynt amheuaeth; a dylid cychwyn y driniaeth ddiffiniol o fewn 21 o

ddiwrnodau i'r dyddiad penderfynu rhoi triniaeth. Er ein bod yn cydnabod y bydd rhywfaint o amrywiaeth bob amser rhwng byrddau iechyd a llwybrau safleoedd penodol, bydd y Llywbrau Cenedlaethol Gorau yn helpu byrddau iechyd i gydymffurfio â mesur y Llwybr Cancer Sengl.

Mae'r llwybrau'n adlewyrchu'r arferion gorau yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael ar gyfer pob safle tiwmor cancer perthnasol. Fel arfer, NICE neu'r canllawiau proffesiynol fydd y ffynhonnell awdurdodol, ond lle bo'r awdurdod hwnnw'n absennol, mae consensws clinigol ymysg y gymuned glinigol briodol wedi cael ei sianelu drwy'r Grwpiau Safle Cancer.

Bydd y llwybrau gorau yn caniatáu i sefydliadau ddeall y capasiti sydd ei angen i gyflawni'r camau unigol sy'n rhan ohonynt, yn ogystal â'r llwybrau yn eu cyfanrwydd.

Cydnabyddir bod rhai llwybrau (neu gamau unigol ar lwybr) yn ymddangos yn heriol, ac mewn rhai achosion, ni fydd yn bosibl eu cyflawni ar unwaith. Gall mesur perfformiad yn erbyn y llwybrau gorau hyn helpu i gynllunio systemau mewn modd mwy effeithiol er mwyn cyflawni'r dyhead hwn. Yn eu hanfod, mae'r Llywbrau Cenedlaethol Gorau hefyd yn gallu helpu gyda'r gwaith comisiynu drwy ddarparu sail ar gyfer cynnal sgysiau â chynllunwyr gwasanaethau a'r gweithlu, cyllidwyr, a rhanddeiliaid eraill, gan nodi unrhyw fylchau rhwng sefyllfa bresennol gwasanaethau a'r angen i fodloni'r safon a osodir yn y llwybrau.

Bydd y llwybrau hefyd yn darparu sail ar gyfer cynnal sgysiau gydag Addysg a Gwellu Iechyd Cymru o ran gofynion y gweithlu i weithredu'r llwybrau, a sgysiau gyda Gwasanaeth Gwybodeg GIG Cymru ynghylch gofynion yr Ateb Gwybodaeth Cancer ar gyfer Cymru yn y dyfodol.

### **Beth yw'r Llywbrau Cenedlaethol Gorau sydd ar gael?**

Caiff y llwybrau eu cyhoeddi fesul tranche. Mae tranche 1 ar gael yn awr drwy ddilyn y dolenni cyswllt isod. Mae'r llwybrau hyn wedi'u cymeradwyo gan y Grŵp Cydweithredol a'r Grŵp Gweithredu ar Ganser. Mae tranche 2 wrthi'n cael ei ddatblygu a bydd yn cynnwys 15 o Llywbrau Cenedlaethol Gorau sy'n ymestyn y cwmpas i dros 80% o'r holl ganserau a fydd yn cael diagnosis. Disgwylir i'r rhain ddilyn yr un llwybr cymeradwyaeth.

<b>Tranche 1</b> <b>(yn ymwneud â ~60% o achosion o ganser)</b>
<a href="#"><u>Llwybr Cenedlaethol Gorau ar gyfer Cancer y Fron</u></a>
<a href="#"><u>Llwybr Cenedlaethol Gorau ar gyfer Cancer y Colon a'r Rhefr</u></a>
<a href="#"><u>Llwybr Cenedlaethol Gorau ar gyfer Cancer Mwcosaidd y Pen a'r Gwddf</u></a>
<a href="#"><u>Llwybr Cenedlaethol Gorau ar gyfer Lwmp yn y Gwddf</u></a>

[Llwybr Cenedlaethol Gorau ar gyfer Cancer yr Ysgyfaint](#)

[Llwybr Cenedlaethol Gorau ar gyfer Cancer Gastrig](#)

[Llwybr Cenedlaethol Gorau ar gyfer Cancer Esoffagaidd](#)

### **Sut fydd cydymffurfedd â'r Llwybrau Cenedlaethol Gorau yn cael ei fonitro?**

Rhagwelir y bydd cydymffurfedd yn cael ei fesur yn bennaf yn erbyn targed amseroedd aros cancer y llwybr cancer sengl. Llywodraeth Cymru fydd yn adrodd ar hyn; adroddir ar lwybrau llai drwy fframwaith perfformiad, a hynny fesur chwarter. Bydd adroddiadau perfformiad o'r fath, ynghyd â'r modd y bydd Timau Amlddisgyblaethol yn cynnal archwiliadau a gwaith gwella llwybrau, yn cael eu hadolygu fel rhan o'r broses adolygu cancer gan gymheiriaid a hwylusir gan Rwydwaith Cancer Cymru.

### **Sut fydd y Llwybrau Cenedlaethol Gorau yn cael eu cynnal?**

Bydd Rhwydwaith Cancer Cymru yn gweithredu fel rheolydd dogfennau ar gyfer y llwybrau gan gymryd cyfrifoldeb am reoli fersiynau pob llwybr drwy'r Grwpiau Safle Cancer; mae hyn yn debygol o fod ar ôl 12 mis yn y lle cyntaf oni bai bod adolygiad 'yn ôl y gofyn' yn cael ei sbarduno oherwydd diweddariad sylweddol i ganllawiau NICE neu ganllawiau proffesiynol yn y cyfamser.

Bydd pob llwybr yn cynnwys atodiad sy'n cyfeirio at y ffynonellau tystiolaeth cyffredinol a ddefnyddir fel sail i ddatblygiad y llwybrau, yn ogystal ag enwau'r rhanddeiliaid yr ymgynghorwyd â nhw yn ystod y broses a fforymau lle cytunwyd ar y llwybrau.

### **Beth sydd angen i'ch bwrdd neu ymddiriedolaeth iechyd ei wneud?**

Mae'r Llwybrau Cancer Cenedlaethol Gorau yn rhan hanfodol o'r 'pecyn' i gefnogi byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd wrth iddynt ddatblygu eu gwasanaethau lleol i gyflawni'r uchelgais a nodwyd yn y llwybr cancer sengl a gwella canlyniadau cancer i'r poblogaethau. Mae'n ofynnol:

- Bod y Bwrdd Gweithredol yn nodi a thrafod y Llwybrau Cenedlaethol Gorau fel rhan o'r gwaith o weithredu'r llwybr cancer sengl.
- Bod arweinwyr cancer gweithredol yn defnyddio'r Llwybrau Cenedlaethol Gorau i gefnogi'r gwaith o gynllunio, darparu a monitro perfformiad gwasanaethau cancer.
- Bod Cyfarwyddwyr Cynllunio yn cynnwys y Llwybrau Cenedlaethol Gorau yn eu rhagdybiaethau cynllunio, gan gydnabod na fydd yn bosibl eu cyflawni yn syth, ond y dylid gweithio tuag atynt yn y tymor canolig.
- Bod timau amlddisgyblaethol penodol i safle yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol yn mabwysiadu'r Llwybrau Cenedlaethol Gorau neu'n cyfiawnhau rhesymau dros amrywiadau lleol a chyfyngedig.